CYMRU YN FENIS
WALES IN VENICE

la Biennale di Venezia
56. Esposizione Internazionale d'Arte
Eventi Collaterali

*Datganiad i'r wasg*

*Dyddiad cyhoeddi: 7 Mai 2015*

***Helen Sear...the rest is smoke***

***Digwyddiad sy'n cyd-fynd ag Arddangosfa Celfyddyd Ryngwladol rhif 56 - La Biennale di Venezia***



***Helen Sear**, mewn prosiect a guradurir gan **Ffotogallery** ac a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru**, yw'r artist i gynrychioli Cymru yn yr Arddangosfa Gelfyddydol Ryngwladol rhif 56**. Cynnwys ei harddangosfa '...the rest is smoke' gasgliad o bum darn newydd o waith a wreiddir yn nhirwedd leol a chyfarwydd Cymru ac sy'n ymateb i gyd-destun ehangach Biennale Fenis. Bydd yr arddangosfa yn **Santa Maria Ausiliatrice,** eglwys a hen leiandy yn Fenis yn ardal Castello.*

*Cymerir teitl arddangosfa Helen Sear o arysgrifiad paentiad olaf Mantegna o Sebastian Sant sydd erbyn hyn yn y Ca' d'Oro yn Fenis: 'Nihil nisi divinum stabile est. Caetera fumus.' (Nid yw dim sefydlog eithr y dwyfol. Mwg yw'r gweddill).*

*Archwilir cysyniadau o farwoldeb a byrhoedledd drwy gyfres o weithiau newydd lle y neilltuir*

*tirweddau amaethyddol i gynnyrch a defnydd a lle maent yn cydoesi'n ofodau hudol gan adael eu hôl ar gorff a meddwl y gwyliwr. Archwilia ei gweithiau ffotograffydd a fideo y ddelwedd yn ffurf gerfluniol a thrwy hynny cynnwys yr artist wahanol gyflymderau o edrych ar bethau gan gyferbynnu'r maint, y lliw a'r presenoldeb byw. Mae'r gweithiau'n cyd-ymateb yn gryf â'i gilydd ac â phensaernïaeth safle'r arddangosfa.*

*Helen Sear yw'r fenyw gyntaf a ddewisir i gael arddangosfa unigol yng Nghymru yn Fenis. Mae'n un o artistiaid cyfoes mwyaf arwyddocaol Cymru a phery i archwilio syniadau a mynegiadau synhwyraidd, a gweledigaeth, cyffyrddiad ac ailgyflwyno natur profiad gan gyfeirio'n benodol at y corff dynol a chyrff anifeiliaid a'i hamgylchedd o'i chwmpas yng nghefn gwlad Cymru a Ffrainc. Ers iddi symud i Gymru ym 1984, mae'n parhau i arddangos a dysgu yng Nghymru a thramor gydag arddangosfeydd diweddar unigol yn Québec, Canada, Efrog Newydd a Stuttgart.*

*Cyflwyniry digwyddiad gan Ffotogallery, yr asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer ffotograffiaeth yng Nghymru. Mae gan y sefydliad berthynas hir dymor gyda'r artist a chyhoeddodd Ffotogallery ei monograff am y 30 mlynedd diwethaf o'i gwaith, Inside the View, yn 2012 ac arddangosodd ei gwaith cyn hynny sawl gwaith yn rhyngwladol ac yng Nghymru.*

*Meddai David Drake, Cyfarwyddwr Ffotogallery:*

*"Mae gwaith cyfredol yr artist yn symud yn llyfn rhwng ffotograffiaeth, cerflunio a fideo gan ddangos ei meistrolaeth grefftus o wahanol ddeunyddiau a phrosesau cynhyrchu. Mae diddordeb yn ei gwaith yn ailgynnau, mae'r beirniaid yn ei chanmol ac mae ei phroffil yn codi yn rhyngwladol - dyma'r adeg berffaith i Helen Sear gynrychioli Cymru ym Miennale Fenis 2015".*

*Yn nhîm arddangos Ffotogallery mae hefyd guradur annibynnol, Stuart Cameron, a'r cynorthwyydd curadurol/rheolwr prosiect, Kathryn Standing. Curadurodd Stuart Cameron brif arddangosfa gyntaf Helen Sear yng Nghymru a bu'n gefnogwr cyson o'i gwaith.*

*Meddai Helen Sear:*

*"Adeiladwyd y perthnasau hyn dros lawer o flynyddoedd a ffurfiant sylfaen o barch a hyder. Wrth gydweithio â thîm Cymru yn Fenis rydym yn llawn cyffro i gyflwyno'r holl weithiau newydd hyn a ddyfeisiwyd yn unswydd i Fenis".*

*Comisiynir a rheolir yr arddangosfa gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau*

*Rhyngwladol Cymru gyda chefnogaeth a chydweithrediad Llywodraeth Cymru a The British Council.*

*Cyflwynir arddangosfa Cymru yn Fenis am y trydydd tro yn Santa Maria Ausiliatrice yn Castello, sydd ychydig oddi ar Via Garibaldi, hanner ffordd rhwng y prif leoliad, Biennale Giardini, a'r Arsenale.*

*Diwedd*

***Am ragor o wybodaeth, delweddau a cheisiadau am gyfweliadau, cysylltwch:***

*Yng Nghymru: â Siân James ar 029 2044 1344 / 07969 821180 / siân.james@celfcymru.org.uk*

*Y tu allan i Gymru a thramor: ag Emma Pettit neu Roz Arratoon ym Margaret_ ar +44 (0)20 7923 2861 / emma@margaretlondon.com / roz@margaretlondon.com / www.margaretlondon.com*

***Nodiadau i'r golygydd***

*Cyflwyna Cymru yn Fenis: Helen Sear ...the rest is smoke yn Santa Maria Ausiliatrice Fondamenta San Gioacchin, 30122 Venezia 9 Mai - 22 Tachwedd 2015*

***Amseroedd agor:***

*Dyddiau rhagolwg 6–8 Mai: 10am-6pm*

*Rhagolwg y Wasg:– 6 Mai hanner dydd-2pm*

*9 Mai - 22 Tachwedd, agored: 10am-6pm*

*http://www.biennalefeniscymru.org.uk www.Facebook.com/CymruYnFenis*
*Trydar: @CymruYnFenis*

1. ***Symudodd Helen Sear** i Gymru ym 1984 ar ôl gorffen ei Diploma Uwch mewn Celfyddyd Gain yn Ysgol y Slade, Coleg Prifysgol Llundain. Daeth ei ffotograffau'n hysbys yn arddangosfa The British Council ym 1991, **De-Composition: Constructed Photography in Britain**, a aeth ar daith i America Ladin a Dwyrain Ewrop. Cynhwyswyd ei gwaith yn yr arddangosfa, **About Face**, yn Oriel Hayward yn Llundain yn haf 2004 a **La Mirada Reflexiva** yn Espai D'Art Contemporani yng Nghastellon, Sbaen yn 2005. Ymhlith ei harddangosfeydd unigol diweddar mae: **Inside The View**, a ddangoswyd yn Oriel Harmonia yn y Ffindir yn 2006; cyhoeddodd g39 Caerdydd ei gwaith llyfr, **Tale,** yn 2009; **Beyond The View**, Oriel Hoopers, Llundain, Oriel Klompching, Efrog Newydd a Bildkultur, Stuttgart, 2010-12. Cyhoeddodd Ffotogallery ei monograff mawr cyntaf yn 2012, **Inside the View**. Cyhoeddodd GOST y gwaith llyfr, **Brisées**, yn 2013 i gyd-fynd â thaith fawr genedlaethol, **Lure**, yn yr un flwyddyn. Ei harddangosfa ddiweddaraf oedd yn Rencontres Internationales de la Photographie en Gaspesié, rhif 5, yn Québec, Canada. Haf 2014. www.helensear.com*

2. ***Ffotogallery yw'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer ffotograffiaeth a chyfryngau'r lens yng Nghymru.** Mae golwg Ffotogallery ar y byd y tu allan gyda rhaglen arddangos sy'n cynnwys artistiaid o Gymru a gweddill y byd. Cais Ffotogallery ehangu ei heffaith a'i dylanwad drwy deithio arddangosfeydd, cydweithio â sefydliadau ac orielau eraill, argraffu a chyhoeddi ar-lein a thrwy ei rhaglen addysg ac allgymorth eang. Mae Ffotogallery yn gwmni dielw cyfyngedig drwy warant ac elusen gofrestredig a gaiff arian blynyddol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru. http://www.ffotogallery.org*

3. ***Mae Stuart Cameron** yn guradur annibynnol a Chyfarwyddwr Crescent Arts, sefydliad datblygu artistiaid yn Scarborough, Gogledd Swydd Efrog a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. Roedd yn Rhaglennwr y Celfyddydau Gweledol yn Chapter, Caerdydd o 1987 i 1996. Hwylusodd waith newydd gydag artistiaid gan gynnwys Cornelia Parker a Mona Hatoum a gafodd ill dwy eu henwebu wedyn am Wobr Turner. Ymhlith ei brosiectau diweddar gydag artistiaid mae: The Wild gan Rushton Tyman; In Domestos Chaos gan Keith Farquhar; Anniversary gan Monica Ross; a'r Art Party Conference 2013 gyda Bob a Roberta Smith.*

4. *Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r asiantaeth sy'n datblygu ac ariannu celfyddydau Cymru. Dyma ei weledigaeth: Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd y genedl a lle chydnabyddir, gwerthfawrogir a dethlir cyfraniad y celfyddydau.*

*www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk*

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

BRITISH
COUNCIL

ffotogallery